

Aseiad o Farchnad
Dai Leol Rhondda
Cynon Taf
2022/2023-
2027/2028



Cynnwys

Rhagair	3
1.Crynodeb Gweithredol	4
Adroddiad o Farchnad Dai Leol Rhondda Cynon Taf 2022/2023-2027/2028	5
2. Cyflwyniad	5
2.1 Cefndir Polisi Cenedlaethol	5
2.2 Cefndir Polisi Lleol	6
2.3 Llywodraethu ac Ymgynghori	7
3. Trosolwg o Asesu a Methadoleg	8
3.1 Methodoleg, mewnbynau a thybiaethau	8
3.2 Ardaloedd o'r Farchnad Dai	8
4. Trosolwg o'r Farchnad Dai a Thueddiadau Economaidd Gymdeithasol a Demograffeg	11
4.1 Dadansoddiad o'r Farchnad Dai yn ôl Deiliadaeth	11
4.2 Thueddiadau Economaidd Gymdeithasol a Demograffeg	14
4.3 Gofynion Anghenion Tai Penodol	18
5.Amcagyfrifon o ystod yr anghenion tai ychwanegol	25
6.Amcangyfrif yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol o'r angen ychwanegol am dai	53
7.Datganiad sicrwydd ansawdd	57
Atodiad A: Tablau'r angen am dai ar gyfer y 10 mlynedd ddiwethaf o amcanestyniadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	58
Atodiad B: Tybiaethau Allweddol	66
Atodiad C: Tabl o Ffigurau	68
Atodiad D: Tabl o Siartiau	70
Llyfryddiaeth	71

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar y Farchnad Dai Leol. Mae'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn wedi cael ei awgrymu gan Lywodraeth Cymru am ei fod yn darparu adroddiad cyson o ran arddull a chynnwys, ar draws ardaloedd pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Defnyddir yr adroddiad hwn i hysbysu ardaloedd y dylid buddsoddi ynddynt ar gyfer tai cymdeithasol, canolradd a thai ar y farchnad agored, ynghyd â Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Hefyd, bydd yr adroddiad yn amlygu ardaloedd lle mae diffyg data, a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r bylchau hyn mewn data.

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan Dîm Strategaeth Tai Rhondda Cynon Taf, ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd ag Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Asesiad) bob pum mlynedd ac ailysgrifennu ac adnewyddu eu Hasesiad unwaith yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwnnw. Er bod yr Asesiad yn asesiad pum mlynedd, mae'r data sy'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu'r allbynnau wedi'u seilio ar amcanestyniadau 15 mlynedd. Gall awdurdodau lleol adnewyddu eu Hasesiadau yn amlach os bydd angen, ond ni fyddai Llywodraeth Cymru yn adolygu nac yn cymeradwyo'r rhain.

Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei adnewyddu ym mlwyddyn ariannol 2025/2026 a bydd angen ei ailysgrifennu ym mlwyddyn ariannol 2027/2028.

Mae rhai ffigurau yn yr asesiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r ffigur cyfan agosaf, felly mae'n bosibl na fydd y ffigurau hyn yn cyfansymio yn union oherwydd y talgrynnu.

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r Asesiad hwn o'r Farchnad Dai Leol wedi defnyddio methodoleg Llywodraeth Cymru i asesu'r farchnad dai yn Rhondda Cynon Taf dros y 5 mlynedd rhwng 2022/2023-2027/2028, gan felly gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddata economaidd gymdeithasol, demograffig a data ar y farchnad eiddo i lywio'r Asesiad, er mwyn cynnig golwg fanwl i fecaneg y marchnadoedd preswyl lleol. Mae tystiolaeth feintiol ac ansoddol wedi cael ei defnyddio i greu'r Asesiad hwn er mwyn sicrhau canlyniad cytbwys, wedi'i seilio ar dystiolaeth dda.

Mae'r Asesiad yn dangos y canlynol:

- Mae angen gros am 1,119 uned tai fforddiadwy ychwanegol y flwyddyn, yn cynnwys 289 uned ganolradd ac 829 uned rhentu cymdeithasol.
- Y pedair ardal â'r angen gros uchaf am dai fforddiadwy yw: Canol Taf, De-orllewin Taf, Aberdâr Fwyaf a Phontypridd Fwyaf
- Unedau un ystafell wely yw'r anheddau mwyaf poblogaidd y mae galw amdanynt yn y sector rhentu preifat ac mae angen 409 uned y flwyddyn.
- Mae amrywiaeth eang o wahaniaethau yn y farchnad tai preifat ar draws y Fwrdeistref Sirol, gyda phrisiau eiddo yn ardal Taf yn gymharol uwch nag ar draws gweddill yr ardal.

Mae'n bwysig pwysleisio na ddylid ystyried bod y prif angen hwn yn darged cyflawni blynyddol. Yn hytrach, mae'n nodi graddfa'r angen a'r galw yn y farchnad dai yn RhCT, y bydd y cyngor yn ceisio mynd i'r afael ag ef, yn rhannol o leiaf, trwy amrywiaeth o ymyriadau yn y farchnad.

Y ffordd orau o ystyried yr angen am dai a nodwyd yn yr Asesiad hwn yw ar lefel Ardaloedd o'r Farchnad Dai i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r anghenion am wahanol fathau o dai mewn marchnadoedd gwahanol.

Er bod mwy o dai fforddiadwy wedi'u darparu yn RhCT yng nghyfnod yr Asesiad diwethaf nac yng nghyfnod unrhyw Asesiad arall, mae'r asesiad yn dangos bod yr angen cyffredinol am dai fforddiadwy wedi cynyddu o hyd, gan ryw fymryn.

Bydd yr allbynnau data o'r Asesiad hwn yn cael eu defnyddio i lywio prospectws Llywodraeth Cymru (LIC) ac fe'u defnyddir i lywio datblygiad tai fforddiadwy.

Adroddiad Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Rhondda Cynon Taf 2022/2023-2027/2028

2. Cyflwyniad

2.1 Cefndir Polisi Cenedlaethol

- **Adran 8 Deddf Tai 1985** - Mae Adran 8 Deddf Tai 1985 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleoli i asesu lefel yr angen am dai yn eu hardal yn achlysurol. Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau ddealltwriaeth gynhwysfawr o'u marchnadoedd) tai lleol a'u bod yn darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau cynllunio a thai strategol effeithiol. Mae cynhyrchu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Asesiad) yn dod o dan y ddyletswydd hon, gan adeiladu ar y gofyniad i adolygu anghenion tai trwy adolygiad mwy cyfannol o'r farchnad dai gyfan. Mae disgwyl i awdurdodau lleol ailysgrifennu Asesiadau bob pum mlynedd ac adnewyddu'r Asesiad hwnnw unwaith yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwnnw (rhwng blyneddau dau a thri), gan ddefnyddio adran 87, Deddf Llywodraeth Leol 2003.
- **Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy** – Cafodd pwysigrwydd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol a defnyddio'r data gorau posibl ar yr angen a'r galw am dai i lywio polisi tai a phenderfyniadau ynghylch y cyflenwad tai fforddiadwy, ei bwysleisio yn Adolygiad Annibynnol 2019 o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy. Rhoddodd yr Adolygiad bwyslais sylweddol ar ddeall faint yn union o dai y mae eu hangen, ym mha ardaloedd daearyddol ac ar ffurf pa ddeiliadaethau. Asesiad cadarn o'r Farchnad Dai Leol yw'r dull allweddol o nodi'r dystiolaeth hon ar y lefel leol.
- **Polisi Cynllunio Cymru** – Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn pwysleisio bod Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn rhan hanfodol o'r sail dystiolaeth ar gyfer cynlluniau datblygu.
- **Deddf Tai (Cymru) 2014** – Yn ogystal, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth ddigartrefedd bob pedair blynedd o dan adrannau 50, 51 a 52 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Asesiad yn chwarae rhan hanfodol mewn llywio'r strategaeth hon, sy'n gorfod cynnwys adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i'r awdurdod lleol ac i gyrff eraill sy'n gysylltiedig â chefnogi pobl sy'n ddigartref neu a allai fynd yn ddigartref.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010** – Mae'n hanfodol hefyd bod awdurdodau lleol yn ystyried eu dyletswyddau cydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru.

2.2 Cefndir Polisi Lleol

Cyhoeddwyd Cynllun Corfforaethol RhCT yn 2020, sef “Gwneud Gwahaniaeth”. Gweledigaeth y Cyngor yw gwneud RhCT “fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus”. Mae tair prif flaenoriaeth yn y cynllun: **Pobl, Lleoedd a Ffyniant**, bob un yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Tai yw sylfaen y tair prif flaenoriaeth. Nid yn unig y mae cael lle cynaliadwy i'w alw'n gartref yn rhoi to uwch pen unigolyn, gall hefyd hyrwyddo ymgysylltu cymunedol, iechyd gwell, ymgysylltu gwell ag addysg a chefnogi'r economi leol.

Mae strategaeth tai lleol ddrafft y Cyngor “**CARTREFI LLEWYRCHUS BYWYDAU LLEWYRCHUS 2024 - 2029 - Strategaeth Tai ar gyfer Rhondda Cynon Taf**” yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Strategaeth yn amlinellu pedwar amcan allweddol:

1. Galluogi marchnad dai weithredol sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.
2. Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a chreu cartrefi sy'n ddiogel, yn gynnes ac yn iach drwy wella cyflwr tai a buddsoddi mewn adfywio cymunedau.
3. Galluogi mynediad i bob math o dai addas a fforddiadwy sy'n bodloni anghenion trigolion.
4. Creu cymunedau llewyrchus drwy sicrhau bod modd i drigolion gael gafael ar gyngor a chymorth yn ymwneud â materion tai sy'n diwallu eu hanghenion.

Gall Asesiad cadarn o'r Farchnad Dai Leol fod yn fan cychwyn ar gyfer gweithredu'r pedwar amcan uchod, gan gynnig ciplun o'r farchnad ar hyn o bryd a sut bydd ei hanghenion yn datblygu.

Hefyd, mae'r Asesiad yn darparu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), gan ddarparu'r data angen tai y bydd angen lefel o seilwaith i'w gefnogi er mwyn ymdopi â gofynion twf yn ein cymunedau. Bydd y CDLI yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ac mae'n gosod y fframwaith ar gyfer datblygiad tai fforddiadwy i RhCT dros y 15 mlynedd nesaf.

Felly, mae'n bwysig bod timau Polisi Tai a Chynllunio yn cydweithio ar greu'r ddogfen hon fel na fydd unrhyw angen heb ei nodi.

2.3 Llywodraethu ac Ymgynghori

Mae ymagwedd gydweithredol wedi cael ei defnyddio i gyflawni'r Asesiad. Mae tîm Strategaeth Tai'r Cyngor wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid niferus wrth ddatblygu'r ddogfen hon, yn fewnol ac yn allanol.

Mae grwpiau ffocws gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner RhCT wedi digwydd wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams. Roedd y bobl a fu'n cymryd rhan yn Swyddogion, o dimau datblygu i reolwyr tai, i gwmpasu pob agwedd ar bob sefydliad.

Cynhaliwyd cyfarfodydd mewnol, wyneb yn wyneb a thrwy MS Teams gyda swyddogion polisi cynllunio'r Cyngor, ynghyd â gohebiaeth e-bost i benderfynu ar bwyntiau data, gan y bydd elfennau o ddata'r Asesiad yn llywio'r CDLI.

Hefyd, bu ymgysylltu ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru, Myfyrwyr, Tenantiaid, Landlordiaid, Asiantaethau Gosod a Thrigolion lleol yn y Sector Rhentu Preifat, trwy fforymau ac arolygon.

Cyflwynwyd yr Asesiad hwn i Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a'i gymeradwyo ganddynt, ar 20 Mawrth 2024.

3. Trosolwg o Asesu a Methodoleg

3.1 Methodoleg, mewnbynnau a thybiaethau

Penderfynir ar yr amcangyfrifon o anghenion tai ychwanegol gan ddefnyddio Offeryn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae'r Offeryn hwn yn defnyddio dull fformiwläig o ddyrannu'r angen ychwanegol am dai, sy'n cael ei ffurfio o'r angen presennol sydd heb ei fodloni a'r angen sydd newydd godi (newid mewn amcanestyniadau o aelwydydd dros gyfnod yr Asesiad), i'r gwahanol ddeiliadaethau tai. Mae'r holl angen presennol heb ei fodloni yn cael ei ddyrannu i dai fforddiadwy a chymerir yn ganiataol y bydd yn cael ei ddiwallu yn ystod pum mlynedd cyfnod yr Asesiad. Mae'r angen sydd newydd godi yn cael ei neilltuo rhwng tai ar y farchnad agored a thai fforddiadwy gan ddefnyddio dull fformiwläig.

Yn ôl ardaloedd o'r farchnad dai (HMA), mae Offeryn yr Asesiad yn darparu mewnbynnau data parod ar gyfer rhent, y pris a dalwyd am y tŷ ac amcanestyniadau o aelwydydd (a ddefnyddir i gynhyrchu'r angen sydd newydd godi), gydag awdurdodau lleol yn darparu dosbarthiadau canradd incwm, angen presennol heb ei fodloni, a chyflenwad a throsiant arfaethedig stoc bresennol. Mae'r ddau fewnbwn data diwethaf yn cael eu hystyried dros bum mlynedd gyntaf cyfnod yr Asesiad yn unig ac fe'u neilltuir yn llawn i dai fforddiadwy. Mae hyn oherwydd bod rhagfynegi cyflenwad y tu hwnt i gyfnod pum mlynedd yr Asesiad yn mynd yn llai cywir. Gall awdurdod lleol fod â hyd at 20 o ardaloedd o'r farchnad dai sy'n cael eu diffinio gan ddefnyddio wardiau, ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol (MSOAs) neu ardaloedd gynnyrch ehangach haen is (LSOAs). Gall pob ardal o'r farchnad dai fod â hyd at 40 ward, MSOA neu LSOA.

Mae'r data mewnbwn ynghyd â nifer o dybiaethau yn cael eu defnyddio i gynhyrchu lefel incwm y byddai aelwydydd, uwchlaw'r lefel incwm hon, yn gallu bodloni eu hanghenion yn y farchnad agored, a lefel incwm is y byddai aelwydydd, islaw'r lefel incwm hon, angen rhentu'n gymdeithasol. Yr aelwydydd canolradd yw'r rhai nad ydynt yn cael eu neilltuo i dai ar y farchnad agored na thai rhent cymdeithasol. Mae Offeryn yr Asesiad hefyd yn rhagfynegi sut gall y mewnbynnau data newid dros gyfnod pum mlynedd yr Asesiad.

Mae'r tablau allbwn o Offeryn yr Asesiad yn cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer y cynlluniau datblygu i ddarparu ystod amcangyfrifon yr Asesiad o anghenion tai ychwanegol.


3.2 Ardaloedd o'r Farchnad Dai

Mae'r Ardaloedd o'r Farchnad Dai wedi cael eu diffinio'n ddaearyddol ar sail gwybodaeth leol faith ac ymchwil i'r ardaloedd gweithredol, naturiol, lle mae

pobl yn byw ar hyn o bryd a lle byddent yn barod i symud tŷ. Y Cyngor sydd wedi nodi'r Ardaloedd o'r Farchnad Dai. Yn eu hanfod, maent wedi'u seilio ar glystyrau o wardiau er mwyn cydnabod y ffaith nad yw marchnadoedd tai'n cael eu cyfyngu gan ffiniau gweinyddol. Mae nifer o ffactorau allweddol wedi cael eu hystyried wrth ddiffinio'r ardaloedd hyn, gan gynnwys pris tai yn fras (i ystyried 'trosglwyddadwyedd' o fewn y farchnad) a phrif gysylltiadau trafnidiaeth ar y ffordd fawr neu ar drên (i gyfrif am batrymau cymudo).

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnwys 13 o Ardaloedd o'r Farchnad Dai, y mae 4 ohonynt yng Nghwm Rhondda, 3 yng Nghwm Cynon a 6 yn ardal Taf Elái, fel y dangosir isod:

Ffigur 1: Ardaloedd o Farchnad Dai RhCT



Mae rhenti gwerth uwch a phrisiau prynu eiddo uwch yn Ardaloedd RhCT o'r Farchnad Dai yn ne'r fwrdeistref, yn ardal Taf Elái yn bennaf. Mae hyn oherwydd y cysylltiad â'r prif briffyrdd drwy dde Cymru a'u bod yn agos yn ddaearyddol at Gaerdydd.

Mae pob un o'r Ardaloedd o'r Farchnad Dai yn cynnwys nifer o wardiau gwahanol, sy'n cael eu cynrychioli gan gynghorwyr etholedig. Mae'r tabl isod yn dangos pa wardiau sydd ym mhob Ardal o'r Farchnad Dai.

Ffigur 2: Ardal o'r Farchnad Dai fesul Ward

Ardal o'r Farchnad Dai	Wardiau							
Cwm Cynon Uchaf	Hirwaun	Pen-y-waun	Rhigos					
Aberdâr Fwyaf	Aberaman	Dwyrain Aberdâr	Aberdâr	Llwydcoed	Cwm bach			
Cwm Cynon Isaf	Abercynon	Aberpennar	Penrhiw-ceibr					
Pontypridd Fwyaf	Trehopcyn	Cilfynydd	Glyn-coch	Graig	Pontypridd	Rhondda	Trallwng	Ynysybwl
Cwm Rhondda Fach Isaf	Cymer	Porth	Ynys-hir					
Cwm Rhondda Fach Uchaf	Glynrhedynog	Maerdy	Tylorstown					
Cwm Rhondda Fawr Uchaf	Pentre	Treherbert	Treorci					
Cwm Rhondda Fawr Isaf	Cwm Clydach	Llwynypia	Pen-y-graig	Tonypandy	Trealaw	Ystrad		
Tonyrefail & Gilefach Goch	Gilefach Goch	Gorllewin Tonyrefail	Dwyrain Tonyrefail	Tonyrefail				
De-orllewin Taf	Brynna	Llanharan	Llanhari	Pont-y-clun	Tonysguboriau			
Canol Taf	Beddau	Pentre'r Eglwys	Llantrisant	Llanilltud Faerd	Ton-teg	Tyn-y-nant		
Dwyrain Pontypridd	Y Ddraenen Wen	Rhydfelen	Treforest					
Ffynnon Taf	Ffynnon Taf							

4. Trosolwg o'r Farchnad Dai a Thueddiadau Economaidd Gymdeithasol a Demograffig

4.1 Dadansoddiad o'r Farchnad Dai yn ôl Deiliadaeth

Mae RhCT yn cwmpasu ardal o Gymoedd De Cymru sy'n ymestyn cyn belled i'r gogledd â Bannau Brycheiniog a chyn belled i'r de â chyrion Caerdydd. Mae'n cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol, rhannol drefol a gwledig wedi'u lleoli yn y mynyddoedd ac iseldir fferm.

Mae RhCT yn cwmpasu ardal o 424Km sgwâr gyda phoblogaeth o 237,700, sydd wedi cynyddu 1.4% ers 2011.

Adeg y Cyfrifiad diweddaraf yn 2021, oedran canolrifol y fwrdeistref sirol oedd 41 oed ond 50-64 oedd y grŵp oedran mwyaf, gydag 20.2% o'r boblogaeth yn llunio'r garfan hon.

Mae Cyfrifiad 2021 yn datgelu bod 12% o'r boblogaeth yn RhCT yn datgan eu bod yn anabl. Yn eu crynodeb o ddata Cyfrifiad 2021, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn esbonio bod data Cyfrifiad 2021 wedi'i gasglu yn ystod pandemig COVID-19 ac "y gallai hyn fod wedi dylanwadu ar amgyffrediad pobl o'u statws iechyd a chyfyngiadau ar eu gweithgareddau ac, felly, gall fod wedi effeithio ar sut y dewisodd pobl ymateb".

Mae'r ganran uchaf o bobl sy'n byw yn RhCT sy'n nodi eu bod yn Gymru yn unig yn 69.8% a Phrydeinig yn unig yw'r ail fwyaf, sef 11.5%. Mae 96.7% o bobl yn RhCT yn nodi bod eu grŵp ethnig yn y categori "Gwyn", gydag 1.5% yn nodi bod eu grŵp ethnig yn y categori "Asiaidd, Prydeinig Asiaidd neu Gymreig Asiaidd".

Gostyngodd canran y bobl a nododd bod eu grŵp ethnig yn y categori "Du, Du Prydeinig, Du Gymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd" o 0.6% yn 2011 i 0.4% yn 2021.

Yn 2020, roedd cyfanswm o 106,316 o aelwydydd yn RhCT ac mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos y dadansoddiad mewn deiliadaeth fel a ganlyn:

- 68.3% yn berchen yn llwyr neu gyda morgais (gan gynnwys Perchentyaeth Cost Isel)
- 0.2% Rhanberchnogaeth
- 13.7% Rhentu'n gymdeithasol
- 17.6% Rhentu'n breifat
- 0.1% Byw heb dalu rhent

Mae nifer yr aelwydydd sy'n rhentu'n breifat wedi cynyddu 4% rhwng 2011 a 2021, mae canran y perchen-feddianwyr wedi gostwng 2.7%, ac mae canran y

rhai sy'n rhentu'n gymdeithasol wedi aros yr un fath. Mae cost gyfartalog eiddo yn RhCT wedi cynyddu cymaint fel na all mwy fyth o bobl erbyn hyn fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ar y farchnad agored, felly bu mwy o ddibyniaeth ar y Sector Rhentu Preifat.


Y pris canolrifol am eiddo yn RhCT yw £123,604 (Ebrill 2022) sy'n 29.2% o gynnydd ers 2019 ond yn 1.1% o ostyngiad ers 2021. Fel y bu'r achos dros Gymru gyfan yn y blynyddoedd diwethaf, mae pandemig COVID-19 a'r cynnydd mewn ffigurau chwyddiant wedi effeithio ar brisiau tai, gan wneud i'r farchnad chwyddo yn 2019 ond gan leihau fymryn dros y blynyddoedd mwy diweddar wrth i'r farchnad arafu.

Mae'r pris canolrifol uchaf yn RhCT yn ne-orllewin Taf, sef £217,543 (Y Gofrestrfa Tir, 2022), ac mae'r isaf yng Nghwm Rhondda Fach Uchaf, sef £95,917.

Yn 2022, gwerthwyd cyfanswm o 3,991 eiddo yn RhCT, gyda'r nifer uchaf o werthiannau yn Ardal Marchnad Dai Aberdâr Fwyaf, sef 580. Yr isaf yn y fwrdeistref sirol oedd Ardal Marchnad Dai Ffynnon Taf, sef 54.

Mae'r gyfran uchaf o anheddau yn RhCT yn dai teras, sy'n llunio 47.35% o'r 103,339, gwaddol diwydiannu Cymoedd De Cymru. Mae tai pêr a thai sengl yn llunio 27.79% ac 16.46% yn y drefn honno, gyda fflatiau, fflatiau deulawr neu fflatiau un llawr yn 8.31% a charafân neu strwythur symudol neu dros dro arall yn llai nag 1%.

Ffigur 3: Annedd yn ôl Math o Adeilad



Mae presenoldeb y Sector Rhentu Preifat ym marchnad tai leol RhCT wedi bod yn tyfu, ynghyd â chynnydd mewn prisiau rhentu. Ers 2016, mae'r rhent canolrifol cyfartalog yn RhCT wedi codi 22%; yn 2022, roedd y rhent canolrifol cyfartalog yn £521.

Mae Ffigur 3 yn dangos y gwerthoedd rhent blynyddol canolrifol fesul Ardal o'r Farchnad Dai (Ebrill 2022). Mae'r rhent blynyddol canolrifol uchaf yn Ffynnon Taf ac mae'r Isaf yng Nghwm Rhondda Fach Uchaf.


Figur 4: Canolrif y Rhent Blynyddol fesul Ardal o'r Farchnad Dai

Ardal o'r Farchnad Dai	Rhent Blynyddol Canolrifol*	
Cwm Cynon Uchaf	£	5,268.00
Aberdâr Fwyaf	£	6,207.34
Cwm Cynon Isaf	£	6,202.33
Pontypridd Fwyaf	£	7,582.44
Cwm Rhondda Fach Isaf	£	6,304.00
Cwm Rhondda Fach Uchaf	£	5,262.83
Cwm Rhondda Fawr Uchaf	£	5,521.98
Cwm Rhondda Fawr Isaf	£	6,140.68
Tonyrefail a Gilfach Goch	£	6,557.08
De-orllewin Taf	£	9,258.95
Canol Taf	£	8,417.92
Dwyrain Pontypridd	£	7,800.00
Ffynnon Taf	£	9,940.00

Yn Ebrill 2022, roedd 2.5% o stoc tai preifat RhCT yn wag, sy'n cyfateb i 2,676 o dai gwag.

Mae Ffigur 5 yn dangos nifer y tai gwag fesul Ardal o'r Farchnad Dai (Ebrill 2022). Mae nifer uchaf y tai gwag yng Nghwm Rhondda Fawr Uchaf a'r isaf yn Ffynnon Taf.

Ffigur 5: Eiddo Gwag fesul
Ardal o'r Farchnad Dai




Ar yr wyneb, er bod eiddo gwag o fewn yr awdurdod lleol yn cynrychioli cyfle i ddatblygu mwy o dai rhent cymdeithasol, mae hyn yn her, gan fod natur stoc eiddo gwag yn cynrychioli trafferthion eu dwyn i Safonau Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru. Mae'r broblem hon, ynghyd â'r ffaith bod llawer o'r stoc yn dai teras sy'n dyddio cyn y 1970au, yn achosi heriau o ran gwerth am arian.

4.2 Tueddiadau Economaidd Gymdeithasol a Demograffig

Yn ôl data Cyfrifiad 2021, mae 58.74% o'r aelwydydd yn RhCT yn weithgar yn economaidd, gyda'r mwyaf ohonynt yn berchen-feddiannwyr. Mae'r siartiau cylch isod yn dangos dosbarthiad canrannau'r aelwydydd gweithgar yn economaidd yn ôl deiliadaeth.


Mae Ffigur 6 yn dangos bod trigolion sy'n weithgar yn economaidd yn byw yn bennaf mewn deiliadaeth perchen-feddiannwr, sef 72%, ac wedyn y sector rhentu preifat, sef 20% ac, yn olaf rhentu cymdeithasol, sef 8%.

Ffigur 6: Trigolion sy'n weithgar yn economaidd yn ôl deiliadaeth



Mae Ffigur 7 isod yn dangos bod trigolion sy'n anweithgar yn economaidd yn byw yn bennaf mewn deiliadaeth perchen-feddiannwr, sef 63%, ac wedyn y sector rhentu cymdeithasol, sef 22% ac, yn olaf, y sector rhentu preifat, sef 15%.

Ffigur 7: Trigolion sy'n anweithgar yn economaidd yn ôl deiliadaeth




Yn 2022, roedd y gymhareb fforddiadwyedd ar gyfer incwm canolrifol i brynu eiddo yn RhCT yn 4.57, gyda phris tŷ canolrifol yn £136,000.00. Mae hyn yn golygu y byddai angen i incwm aelwyd fod yn £29,727.00 er mwyn cael a phrynu eu cartref eu hunain.

Yn y sector rhentu preifat, mae'r rhent canolrifol blyneddol cyfartalog yn £6,958.73, sy'n cynrychioli cyfran o 23% o incwm canolrifol cyfartalog yr aelwyd yn RhCT.


Mae Ffigur 8 isod yn dangos bod mwyafrif cyfanswm aelwydydd RhCT yn aelwydydd un teulu, sy'n cyfrif am 63.98% o gyfanswm yr aelwydydd yn RhCT.

Ffigur 8: Cyfansoddiad yr Aelwyd




Mae mwyafrif aelwydydd RhCT yn tan-feddiannu eu cartref (mae'r rhain yn aelwydydd sydd â mwy o ystafelloedd gwely nag y mae eu hangen arnynt e.e. un person yn byw mewn eiddo 3 ystafell wely), gyda 43,822 o aelwydydd yn tan-feddiannu gyda 2 ystafell wely neu fwy. Mae Ffigur 8 isod yn dangos mai'r ardal o'r farchnad dai sydd â'r nifer fwyaf o bobl sy'n tan-feddiannu eu cartref yw Aberdâr Fwyaf.

Ffigur 9: Gor-feddiannu a Than-feddiannu




Mae Ffigur 10 isod yn dangos bod gan 32,785 (32%) o aelwydydd yn RhCT un person sy'n byw gydag anabledd a 10,103 (9%) sydd â dau neu fwy.

Ffigur 10: Aelwydydd lle mae person ag anabledd yn byw



Mae Ffigur 11 isod yn dangos bod mwyafrif y bobl sy'n gweithio yn RhCT yn teithio llai na 10km i'w lle gwaith, gyda'r nifer o fwyaf o bobl nad ydynt mewn gwaith yn 50+ oed.

Ffigur 11: Pellter Cymudo



4.3 Gofynion Anghenion Tai Penodol

Heblaw am y farchnad dai gyffredinol, mae anghenion tai penodol i unigolion sydd angen darpariaeth eithriadol. Bydd yr adran hon yn amlinellu'r strategaethau a'r polisïau sydd ar waith, yn ôl gwahanol feysydd gwasanaeth y Cyngor, i ddelio â'r galw am lety sydd arnynt.

Lle nodir bylchau, mae hyn yn gyfle i adolygu ac ystyried a oes angen gwella ffocws strategol yn y meysydd hyn.

a) Darpariaeth tai hygyrch ac wedi'u haddasu	
Polisïau / strategaethau lleol	Polisi Dyrannu Drafft 2024
Anghenion eiddo (adran allweddol)	Eiddo hygyrch i bobl sydd angen cyfleusterau â mynediad lefel, yn amrywio o ystafelloedd cawod ac ystafelloedd gwlyb i unedau cegin sy'n codi a gostwng
Yn addas i	Pobl â symudedd cyfyngedig lle byddai eiddo ar gyfer anghenion cyffredinol yn achosi cyfyngiadau mewn bywyd o ddydd i ddydd.
Tystiolaeth gan gynnwys ffynonellau data (adran allweddol)	Mae tystiolaeth wedi'i chasglu o'r adolygiad o Gynllun Dyrannu Drafft yr Awdurdod, pan ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ar sut caiff eiddo eu dyrannu a beth yw'r rhwystrau o ran y cyflenwad.
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol	Ymgeiswyr ar restrï aros, swyddogion gosod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, swyddogion y gofrestr tai, swyddogion tai a swyddogion strategaeth tai.
Materion Allweddol a nodwyd	Darganfu ymgeiswyr nad oedd digon o fanylder i ddeall pa addasiadau lefel 2 a osodwyd ym mhob eiddo ac, yn aml, nid yw asesiadau therapi galwedigaethol yn ddefnyddiol wrth bennu angen, gan eu bod yn aml yn hen. Mae gweithwyr tai proffesiynol wedi dweud nad oes digon o stoc ac nad yw tystiolaeth a ddarperir gan ymgeiswyr yn ddigon cadarn i bennu angen gwirioneddol. Hefyd, nid yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cadw digon o wybodaeth i bennu pa stoc sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd er mwyn pennu angen.

b) Teuluoedd aml-genhedlaeth neu deuluoedd mwy sydd angen eiddo mwy o faint	
Polisïau / strategaethau lleol	Polisi Dyraniadau 2018
Anghenion eiddo (adran allweddol)	Ar hyn o bryd, caiff anghenion am eiddo mwy eu cyfrifo dim ond ar sail yr angen am ystafelloedd wely ac ni chaiff anghenion diwylliannol eu hystyried.
Yn addas i	Teuluoedd mawr ac aelwydydd aml-genhedlaeth.
Tystiolaeth gan gynnwys ffynonellau	Rhestrï aros cyffredin am dai a theuluoedd sydd wedi'u cartrefu mewn llety dros dro.

data (adran allweddol)	
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol	Ymgeiswyr ar restrï aros, swyddogion gosod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, swyddogion y gofrestr tai, swyddogion tai a swyddogion strategaeth tai.
Materion Allweddol a nodwyd	O ganlyniad i ddiffyg stoc o'r maint priodol yn y fwrdeistref sirol, mae teuluoedd mwy yn aml yn derbyn cartrefi llai i sicrhau eu bod yn cael eu cartrefu.

c) Tai nad ydynt yn barhaol	
Polisiau / strategaethau lleol	Asesiad Anghenion y Grant Cymorth Tai (HSG), Strategaeth y Grant Cymorth Tai, Cynllun Gweithredu Ailgartrefu Cyflym.
Anghenion eiddo (adran allweddol)	Mae 524 o unigolion, teuluoedd a grwpiau wedi cael eu gosod mewn llety dros dro yn 2020/2021 (ar ddiwedd Mawrth). Gosodwyd 40% o'r 524 mewn llety dros dro sawl tro, gan arwain at gyfanswm o 852 o leoliadau yn 2020/2021 (ar ddiwedd Mawrth). Mae 852 o leoliadau yn gynydd o bron i 257 flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 595 yn 2019/20.
Yn addas i	Nid oedd angen â blaenoriaeth i'w weld ym mron hanner yr holl achosion a nodwyd (mae categorïau angen â blaenoriaeth yn cynnwys: menywod beichiog, pobl â phlant dibynnol, pobl sy'n ddigartref o ganlyniad i dân, llifogydd neu drychineb arall, pobl ifanc 16 neu 17 oed, pob 18 - 20 oed sydd mewn perygl arbennig, dioddefwyr cam-drin domestig, personél y lluoedd arfog, ymadawyr gofal 18 – 20 oed, pobl sy'n fregus o ganlyniad i ryw reswm arbennig, a phobl sy'n ddigartref ac ar y stryd). Aelwydydd sy'n cynnwys aelod bregus oherwydd 'salwch meddwl/anabledd dysgu' yw'r ail grŵp mwyaf ac anabledd corfforol yw'r trydydd grŵp mwyaf.
Tystiolaeth gan gynnwys ffynonellau data (adran allweddol)	1) Llety un ystafell wely y mae ei angen fwyaf ar draws holl fandiau rhestr aros tai cymdeithasol 'Homefinder' RhCT, ond ar draws pob sector, mae diffyg llety parhaol un ystafell wely person sengl sylweddol. 2) Mae Llety Dros Dro presennol yn llawn ond mae'r Cyngor yn gweithio i amlygu safle i ddarparu ar gyfer rhagor o unedau, y mae'r mwyafrif ohonynt yn rhai 1 ystafell wely. 3) Mae'r holl ddata wedi cael ei gasglu o asesiad anghenion Grant Cymorth Tai 2023 y Cyngor ac mae wedi darparu cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol.
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol	Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid fel y GIG a sefydliadau trydydd sector fel Crisis yn asesiad anghenion y Grant Cymorth Tai.
Materion Allweddol a nodwyd	Mae data ar ddigartrefedd yn set ddata sy'n amrywio gyda statws economaidd gymdeithasol presennol unrhyw Awdurdod Lleol. Mae'r niferoedd wedi cynyddu yn ddiweddar, yn bennaf oherwydd pandemig Covid-19 a chostau byw cynyddol, sy'n effeithio ar y mwyaf bregus yn ein cymdeithasol, gan mwyaf.

d) Anghenion tai, gofal a chymorth

Polisiâu / strategaethau lleol	Cynllun Cyfalaf Strategol 10 Mlynedd, 31 Gorffennaf 2023, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Cwm Taf Morgannwg.
Anghenion eiddo (adran allweddol)	Tai gwarchod cyfoes â gofal ychwanegol, byw â chymorth i bobl ag anabledd dysgu a/neu Anhwylder ar y Sbectwm Awtistiaeth, tai â chymorth dros dro a Seibiant.
Yn addas i	Plant a phobl ifanc Pobl hŷn a phobl â dementia Pobl ag anableddau corfforol a/neu amhariadau ar y synhwyrau Pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth Pobl â phroblemau iechyd meddwl Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)
Tystiolaeth gan gynnwys ffynonellau data (adran allweddol)	Plant a Phobl Ifanc Blaenoriaethau datblygu'r gwasanaeth a nodwyd: • Darpariaeth breswyl ychwanegol a/neu gryfhau mynediad at ddarpariaeth bresennol • Llety i bobl ifanc ag anableddau dysgu sy'n pontio o wasanaethau plant • Llety priodol i bobl ag anableddau dysgu ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal • Diffyg cam addas i lawr o ddigartrefedd neu dai â chymorth • Mae'r galw am seibiannau byr yn cynyddu Proffil y galw presennol: • Mae 90% o blant RhCT sy'n derbyn gofal mewn gofal preswyl yn cael eu gosod y tu allan i'r sir • Mae RhCT o'r farn bod ganddo ddigon o leoedd pe na bai'r un awdurdod lleol arall yn defnyddio gwelyau yn y sir. Ym Medi 2021, roedd RhCT ond yn gallu defnyddio 7 allan o 50 o welyau • Ym mis Gorffennaf 2023, dywed RhCT fod 60 o blant a phobl ifanc wedi'u gosod mewn llety preswyl, 39 ohonynt y tu allan i'r rhanbarth a 4 y tu allan i Gymru • Ymateb i anghenion llety sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y dyraniad blynyddol amcangyfrifedig o 48-50 Plentyn Digwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC), y bydd angen llety â chymorth ar rai ohonynt • Yn ôl amcan, bydd 58 o bobl ifanc 18+ oed yn gadael gofal yn 2023 Ffynonellau: • Plant sy'n Derbyn Gofal: Strategaeth Trawsnewid Gofal Preswyl 2022-2027 • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2017 – 2022, • Adroddiad Adolygiad Preswyl Allanol Chwarterol, Ebrill 2023 • Offeryn casglu data HICO pwrpasol Pobl Hŷn a Phobl â Dementia Nifer bresennol yr unedau llety dynodedig i bobl hŷn – 1547 (2020) Nifer bresennol yr unedau tai â gofal ychwanegol i bobl hŷn – 60 (2020)

	Rhent dynodedig yn ôl oedran gan gynnwys Tai addas â Lloches y bydd eu hangen erbyn 2025: 414 ac erbyn 2035: 780 Ymddeol ar werth y bydd eu hangen erbyn 2025: 46 ac erbyn 2035: 87. Rhent Gofal Ychwanegol: eu hangen erbyn 2025 ac erbyn 2035: 214 Gofal Ychwanegol ar werth y bydd eu hangen erbyn 2025: 7 ac erbyn 2035: 24 Camu i Fyny/Camu i Lawr y bydd eu hangen erbyn 2025: 2 ac erbyn 2035: 6 Gwelyau Gofal Nyrsio y bydd eu hangen erbyn 2025: 226 ac erbyn 2035: 406 Iechyd Meddwl Heriau Mae'r Strategaeth Cymorth Tai yn cynnwys cynlluniau i adolygu'r farchnad llety â chymorth i ymateb i'r lefel gynyddol o gyflwyniadau cymhleth: • Mae Prosbectws 2022-23 RhCT yn adrodd am gynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn o 11% mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl; fodd bynnag, mae'n rhagamcan y bydd hyn yn codi'n sylweddol yn sgil COVID-19. • 105 o unigolion â phroblemau iechyd meddwl sydd angen gwahanol fathau o lety yn RhCT, gydag 88 o'r rhain yn gofyn am ddarpariaeth camu i lawr. • Ym Mehefin 2023, mae 7 unigolyn wedi'u gosod y tu allan i'r sir, mewn lleoliad nyrsio iechyd meddwl arbenigol i oedolion iau gan nad oes darpariaeth o'r fath yn RhCT. Llety wedi'i gynllunio yn y dyfodol i oedolion â heriau iechyd meddwl – 105 uned. Anabledd Corfforol ac Angen Synhwyrdd (PD&SN) Ar hyn o bryd yn RhCT, mae 26 unigolyn ag anableddau corfforol mewn lleoliadau arbenigol y dylid eu hystyried ar gyfer llety newydd sy'n gallu bodloni eu hanghenion yn well a'u dod yn agosach at adref. Ar hyn o bryd, mae'r angen blyneddol net am lety tai cymdeithasol hygyrch yn 13 uned yn RhCT. Mae ar 1337 o aelwydydd angen addasiadau i'w gwneud nhw'n hygyrch i bobl anabl ac mae angen i 1318 o aelwydydd pellach symud i gartref mwy addas yn RhCT. Fodd bynnag, tybir bod y ffigurau hyn yn perthyn yn bennaf i anghenion oedolion hŷn sydd â phroblemau eiddilwch sy'n dod i'r amlwg. Anabledd Dysgu ac Awtistiaeth Yn 2022/3, mae'r Cyngor yn adrodd bod: 47 o bobl ag anabledd dysgu yn byw mewn gofal preswyl – mae 31 ohonynt y tu allan i'r sir
--	--

	45 o oedolion ag anabledd dysgu ar y rhestr aros am lety Yn RhCT dros y cyfnod 5 mlynedd nesaf, bydd 97 o bobl ifanc yn pontio i oedolaeth gydag anabledd dysgu a bydd angen posibl arnynt am lety. Bydd comisiynu ac ymgymryd â lleoliadau cysylltu bywydau yn cael effaith ar y galw am fuddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol. Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Nid yw'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ystyried gofynion cyfalaf cefnogi goroeswyr VAWDASV yn flaenorol. Mae angen ffocws ar greu asesiadau capasiti a galw manwl ar draws ardal pob cyngor ac ar draws y rhanbarth yn ei gyfanrwydd yn gysylltiedig â llety i bobl sy'n profi VAWDASV. Dylai hyn gynnwys: • Asesiad capasiti a galw i oroeswyr benywaidd sengl • Asesiad o'r galw i oroeswyr gwrywaidd sengl • Asesiad capasiti a galw i oroeswyr â phlant • Asesiad capasiti a galw i oroeswyr ag iechyd meddwl cymhleth a heriau camddefnyddio sylweddau • Asesiad capasiti a galw i oroeswyr o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol • Asesiad o'r galw i gyflawnwyr VAWDASV
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol	Ymgysylltu â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg trwy gyfarfodydd strwythuredig ffurfiol a gweithdai (cyfuniad o rai wyneb yn wyneb a thros y we). Defnyddiwyd digwyddiadau ymgysylltu i gasglu'r data a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddatblygu'r Cynllun Cyfalaf Strategol, yn ogystal ag i roi briff i rhanddeiliaid ar y broses ddatblygu ac i roi diweddariadau allweddol ar gynnydd. Rhoddodd rhanddeiliaid eu barn broffesiynol am anghenion grwpiau o gleientiaid, ynghyd â data ychwanegol ar angen nad oedd o reidrwydd wedi bod yn gyhoeddus yn flaenorol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymgysylltu'n helaeth â phobl sydd â phrofiad bywyd wrth ddatblygu ei Gynllun Ardal. Adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad o anghenion ac mae fframwaith ar gyfer cyd-gynhyrchu yn y dyfodol wedi cael ei datblygu fel rhan o broses yr Achos Busnes Pum Achos.
Materion Allweddol a nodwyd	Ar hy o bryd, mae diffyg stoc sylweddol ar draws pob maes llety gofal a chymorth ac, fel rhan o'r strategaeth, bydd RhCT yn gweithio gyda'i bartneriaid yn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu'r llety y mae ei angen ar gyfer eu trigolion.

e) Anghenion lleoliadol am lety i fyfyrwyr, y Sector Rhentu Preifat	
Polisiâu / strategaethau lleol	Strategaeth y Sector Rhentu Preifat.
Anghenion tir (adran allweddol)	Campws Trefforest Prifysgol De Cymru a'r ardal gyfagos.

Tystiolaeth gan gynnwys ffynonellau data (adran allweddol)	1) Mae cyfanswm o 549 (3.02%) o Dai Amlfeddiannaeth (HMOs) yn RhCT. Yn hanesyddol, myfyrwyr sydd wedi bod mewn HMOs yn RhCT ac mae'r galw cysylltiedig hwn wedi gweld y crynodiadau mwyaf yn cael eu datblygu mewn ardaloedd gerllaw Prifysgol De Cymru, yn bennaf yn ward Trefforest neu Ardal Pontypridd Fwyaf o'r Farchnad Dai. 2) Bu gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n byw yn Nhrefforest, a all fod o ganlyniad i'r uno â Chasnewydd a Merthyr, a bod un o'r cyfleusterau yng Nghaerdydd. Dywed yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2017/18 - 2022/23 fod "adborth lleol gan landlordiaid yn awgrymu bod llai o farchnad myfyrwyr warantedig yn Nhrefforest nag y bu ar un adeg".
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol	Wrth greu strategaeth y Sector Rhentu Preifat, ymgynghorwyd â Phrifysgol De Cymru, swyddogion Strategaeth Tai'r Awdurdod Lleol, landlordiaid a thrigolion lleol.
Materion Allweddol a nodwyd	Lledaeniad y lleoliad daearyddol

f) Anghenion lleoliadol i bobl ag anghenion corfforol neu ddiwylliannol	
Polisiâu / strategaethau lleol	Polisi Dyrannu 2018 – categori Ffafiaeth Resymol a167 (2) (e) – Pobl y mae angen iddynt symud i ardal leol o fewn bro'r awdurdod ac y byddai methu â bodloni'r angen yn achosi caledi iddyn nhw eu hunain neu i eraill. Categori Ffafiaeth Resymol a167 (2) (a), (b), (c) a (d) Ymgeiswyr y mae angen iddynt symud i fod yn agosach at: a. Ysgol plentyn (lle mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi argymhell bod angen symud i ysgol) b. Man addoli, gan nad oes man addoli addas lle mae'r ymgeisydd yn byw ar hyn o bryd.
Anghenion eiddo (adran allweddol)	Gerllaw mannau addoli a gwasanaethau
Yn addas i	Pobl ag anghenion corfforol a diwylliannol
Tystiolaeth gan gynnwys ffynonellau data (adran allweddol)	Ar hyn o bryd, mae gan restr aros y gofrestr tai gyffredin 2 gais sy'n bodloni'r angen a nodwyd.
Ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol	Ymgeiswyr â rhestr aros y gofrestr tai gyffredin a staff y rhestr aros.
